

Cofnodion



Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: Dydd Gwener, 9 Gorffennaf 2021

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr G Berry, P Hourahine, M Al-Nuaimi, Y Forsey, C Ferris, M Evans, F Hussain and J Hughes

Yn bresennol: Mark Bleazard (Digital Services Manager), Felicity Collins, Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu), Connor Hall (Cyngorydd Craffu) and Samantha Schanzer (Cyngorydd Craffu)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr L Lacey and C Evans

1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Nodwyd na chofnodwyd yr ymddiheuriadau ar gyfer y Cyngorydd M Evans. Dywedodd y tîm Gwasanaethau Democrataidd y byddai hyn yn cael ei ddiwygio'n ôl-weithredol i adlewyrchu hyn.

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2021 yn gofnod gwir a chywir.

3 Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2020-21

Gwahoddedigion:

Sally Ann Jenkins - Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
Mary Ryan – Pennaeth Diogelu Corfforaethol

Rhoddodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol drosolwg byr o'r adroddiad i'r pwyllgor ac esboniodd fod y gwasanaeth wedi cyflawni'r gwelliannau gan Archwilio Cymru a awgrymwyd ar gyfer 2021. Pwysleisiwyd ei bod wedi bod yn flwyddyn anarferol sydd wedi cael effaith ar bob gwasanaeth gyda heriau ond parhaodd yr adran i ymrwmo i gynllun gwaith 2021 er ei bod yn amser rhyfedd o ran gweithio o bell.

Lansiwyd y cynllun e-ddysgu ar gyfer diogelu ym mis Mai 2020, rhagwelwyd y byddai'n cael ei lansio ym mis Mawrth 2020 ond fe'i gohiriwyd oherwydd y pandemig. Roedd y tîm wedi gobeithio y byddai 90% o'r staff a'r gwirfoddolwyr yn cwblhau'r cwrs ond nododd nad oedd hyn yn bosibl oherwydd COVID, fodd bynnag roedd llawer o bobl yn cofrestru ar gyfer yr e-ddysgu ac roedd yn cael adborth da gan y rhai a fynychodd.

Esboniodd y swyddog fod rhai o'r heriau o ganlyniad i lai o hyfforddiant wyneb yn wyneb, ac esboniwyd y byddai'r tîm diogelu'n defnyddio hyfforddiant o'r fath i sicrhau bod y cyngor yn parhau i gydymffurfio. Yn ôl ym mis Medi 2020, roeddent wedi gobeithio ailddechrau hyn ond ni ddigwyddodd hyn oherwydd bod mwy o bethau'n cael eu gohirio yng nghyd-destun y

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

pandemig. Er gwaethaf hyn, sicrhodd y swyddog y pwyllgor fod llawer o drefniadau ar waith i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu.

Crëwyd y Gofrestr Gwirfoddolwyr a Hebryngwyr yn dilyn argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Dywedodd y swyddog arweiniol fod hyn yn eu rhoi mewn gwell sefyllfa nawr ac fod pethau'n mynd yn dda iawn er nad oes cynifer o wirfoddolwyr oherwydd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Dywedwyd wrth y pwyllgor y byddai hyn yn gwella yn y pen draw ac y byddai'r tîm yn adolygu'r polisi gwirfoddoli gan gwblhau'r gwaith cofrestru a'r diweddariadau perthnasol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod holl gofnodion gwaddol gwefan Newport.Gov i gyd wedi'u dileu ac yn gywir. Roedd hyn yn bennaf i gynorthwyo dinasyddion gan fod y partneriaid diogelu ledled y rhanbarth wedi'u diweddarau a'u rhannu o fewn y cyngor drwy ddulliau cyfathrebu gwahanol fel y cylchlythyr a gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd ar y rhyngwrdd. O hyn, tynnodd y swyddog sylw at y ffaith mai'r rheswm oedd sicrhau bod mynediad i ddinasyddion at wybodaeth ddiogelu yn llawer haws i gael gafael arni.

Soniwyd wrth yr Aelodau bod y gosb resymol, a adwaenir fel y gwaharddiad ar smacio ysgafn. Cyfeiriwyd yr aelodau at ddiwedd yr adroddiad os ydynt am ddarllen y briff a gaiff ei gynnwys yn adroddiad y cyfarwyddwr mewn cysylltiad a chydymffurfio.

Nododd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol fod y tîm wedi lansio Adnodd Archwilio Hunanasesiadau Diogelu Cyngor Casnewydd. Rhoddodd hyn lawer o sicrwydd i wasanaethau'r cyngor o ran eu trefniadau diogelu ynghyd a llawer o gefnogaeth i'r adrannau.

Cynlluniwyd rhan o'r cynllun blynyddol i gefnogi adrannau penodol gyda'u cynlluniau eu hunain o fewn y gwasanaethau. Dywedodd y swyddog ei bod yn galonogol bod gan lawer o bobl ddiddordeb o ran safbwynt polisi gan ei fod yn gwneud i wasanaethau feddwl am wahanol bethau a allai effeithio ar eu trefniadau diogelu. Roedd yn fuddiol gan ei fod yn helpu'r cyhoedd a staff i fynd i'r afael a'u pryderon o ran ble i droi i gael gwybodaeth gyhoeddus fwy hygyrch a dywedwyd wrthynt y byddant ymhell ar y blaen gyda hyn pan fydd gwasanaethau'r cyngor i gyd yn ailagor ar gyfer y normal newydd.

Gweithiodd y cyngor gyda phartneriaid cyn y cyfnod cloi ym mis Mawrth 2020. Yn benodol, bu Barnardo's yn gweithio ar eu prosesau a'u gweithdrefnau amddiffyn plant yng Nghasnewydd, gan ystyried sut yr oeddent yn teimlo am weithio yn y maes ymosodiadau ar blant ac amddiffyn plant, a pha welliannau y gellid eu gwneud. Nodwyd bod y dull hwn wedi bod o gymorth mawr i'r staff gan eu bod yn sicrhau cyhwysiant ym mhob rhan o'r holl wasanaethau plant sy'n edrych ar y prosesau hynny. Derbyniodd rheolwyr argymhellion gwerthfawr a'u hymgorffori ym mhrosesau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dywedodd y Pennaeth Diogelu mai'r prif uchafbwynt oedd bod y ganolfan ddiogelu yn cael ei hystyried yn werthfawr, a'i bod yn arbennig o dda i Gasnewydd fel model diogelu cadarnhaol gyda phartneriaid allweddol y ddinas. Roedd Uned Amddiffyn Ganolog yr Heddlu, a oedd gynt wedi'i lleoli yn rhanbarth y canolbarth, wedi newid ei ffordd o ddarparu gwasanaethau ac mae bellach yn gwneud hynny o'r Dwyrain a'r Gorllewin. Roedd hyn yn annog mwy o gyswilt gan fod yr heddlu bellach wedi'u lleoli wrth ymyl yr hyb a'r ganolfan. Roedd hyn creu

trefniadau cyfathrebu gwell ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion Ifanc a'r Gwasanaethau Plant. Roedd hyn yn galluogi'r gwasanaethau i ddechrau diogelu cyn gynted ag y bo angen, felly gellir ei ystyried yn llwyddiant i Gasnewydd gan fod y tîm wedi'i dreialu ond mae bellach wedi'i ymwreiddio'n gadarn yn y rhanbarth. O ganlyniad i hyn, bydd y ganolfan yn rhan o adroddiad y cyfarwyddwr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Diogelu am ei amser ac gofynnodd am gwestiynau gan y pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r dull symlach a geir yn y ddogfen, ond roedd yn pryderu am y dangosyddion perfformiad sy'n newid yn gyson. Cydnabuwyd na fyddai'r un peth yn cael ei gyhoeddi tan fis Mehefin 2022, felly dywedodd y Pwyllgor Craffu na fyddent yn gallu cynghori heb wybod sut y gallant helpu i wella'r materion diogelu presennol. Felly, gofynnodd y pwyllgor am y canlynol;
A) Sicrwydd bod y rhai sydd angen help yn cael blaenoriaeth ac a oes gan y tîm unrhyw bryderon o ran sut mae pethau'n mynd.
B) A yw strwythur tîm diogelu Casnewydd yn briodol i fodloni'r materion diogelu.

Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Diogelu fod problem gyson o ran faint o fanylion y gallant eu datgelu a hefyd o ran rhoi llawer o sicrwydd i'r cyngor. Maent yn gweithio'n agos gydag oedolion a phlant ac felly pan fydd gan y tîm broblemau, ei i'r afael â nhw'n ffurfiol ac yn gyflym iawn. Mae materion diogelu sy'n ymwneud â phlant wedi cael sylw ar unwaith ac eithrio ym mis Ebrill 2020 pan ostyngodd nifer yr atgyfeiriadau wrth i bawb addasu i weithio o bell.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y tîm diogelu yn derbyn atgyfeiriadau drwy amrywiaeth o lwybrau a bod y problemau yn deillio o'r ffaith bod ysgolion ar gau yn bennaf gan fod mynediad i ysgolion yn feinchnod diogelu mawr. Bu'r tîm yn gweithio gyda'r gwasanaeth addysg mewn cysylltiad a diogelu plant a phobl ifanc agored i niwed yn well drwy gadw'r gwasanaethau i fynd. Roedd y tîm yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd y tu allan i ysgolion. Nodwyd bod lluo o atgyfeiriadau yn dod i law oherwydd ar hyn o bryd mae pobl sy'n agored i niwed yn cael mwy o sylw. Pwysleisiodd y swyddog y bydd yr adroddiad yn wahanol gan fod y pwysau y mae'r tîm diogelu yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn wahanol iawn i'r rhai a welwyd ym mis Mawrth 2020, ond er gwaethaf hyn, dywedwyd wrth yr aelodau bod hyn yn cael ei reoli'n dda iawn.

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaeth ei fod yn rhannu rhwystredigaeth y pwyllgor ynglŷn â manylion y data. Roedd newidiadau Llywodraeth Cymru i'r canllawiau yn rhwystredig o ran rheoli perfformiad, ond mae'r swyddog yn parhau'n obeithiol gan fod canllawiau newydd yn rhoi darlun clir o'r hyn a ddisgwyliid gan y tîm a'r gofynion ar gyfer cyflwyno i'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn y dyfodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd y tîm o'r diwedd yn nesáu at sicrhau eglurder o ran hynny.

O ran sicrwydd, o fis Chwefror 2020 ymlaen roedd risg uniongyrchol i unrhyw fath o fod yn agored i niwed gan ei fod yn wasanaeth sy'n wynebu'r tu allan, nid oedd lefel y gwasanaeth yn gostwng gan fod gweithwyr cymdeithasol yn dal i fod allan yn gweithio. Rhoddwyd Cyfarpar Diogelu Personol i'r staff a chawsant eu brechu yn gynnar yn y rhaglen.

Yna, dywedodd y swyddog arweiniol wrth yr aelodau fod ganddynt weithlu ifanc sy'n hyderus o ran defnyddio TG yn yr adran gwasanaethau plant ac sydd â llai o risg mewn cysylltiad a COVID ac felly eu bod yn ddigon ffodus i beidio â rhoi terfyn ar wasanaethau'n llwyr. Pwysleisiwyd bod y pwysau ar eu staff wedi bod yn sylweddol. Er bod y staff wedi ymdopi'n dda iawn, cafodd y tîm wiriad sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac ni chodwyd unrhyw bryderon o ran eu hymarfer uniongyrchol. Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig cydnabod bod y staff wedi blino ac oherwydd y pandemig mae hynny'n ymwneud a mwy na nifer yr atgyfeiriadau.

Hysbyswyd yr Aelodau bod yr atgyfeiriadau'n llawer mwy cymhleth a heriol i'r staff o ran gwybodaeth a sgiliau gydag atgyfeiriadau gwahanol iawn yn dod i law. Er enghraifft, ar gyfer plant gan nad oedd unrhyw un wedi eu gweld yn ystod cyfnodau clo h.y. ymwelydd iechyd yn ymweld ag ysgolion. Mae atgyfeiriadau hefyd yn dod i law yn llawer hwyrach gyda phlant yn dod allan o gyfnodau hirach o esgeulustod. Dywedwyd wrth y pwyllgor fod hyn yn cael effaith ddofn ar y plant o ran datblygiad eu lles corfforol a meddyliol, felly bydd yr adran yn delio â phroblemau mwy cymhleth am gyfnod hirach. Yn y ddau wasanaeth, bu'r tîm yn darparu gwasanaethau drwy gydol y pandemig. Ymatebodd y staff yn eithriadol o dda i'r problemau o ran tryloywder a gwneud penderfyniadau, a diolchodd y swyddog i'r Cynghorydd Cockeram am ei gymorth. Bu'r tîm cyfan yn gweithio ar y cyd ond maent yn cydnabod eu bod yn wynebu cyfnod anoddach yn sgil effaith ganlyniadol y pandemig ac y byddai cyfyngu gwasanaethau o fudd ond ni allant roi'r gorau i gynnog gwasanaeth i'r rhai mewn angen.

- Diolchodd y Pwyllgor i'r tîm diogelu am eu hymdrechion enfawr dros y 18 mis diwethaf y mae'n rhaid eu bod wedi bod yn anhygoel o galed, roedd eu gwaith y tu ôl i'r llenni a'r arfarniadau gonest yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn. Holodd yr Aelodau a oedd gan y tîm unrhyw argymhellion i'r Cabinet a allai fod o gymorth iddynt ar gyfer y problemau yn y dyfodol.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth mai eu prif broblem yw adnoddau, ond eu bod wedi lleisio'r problemau hyn eisoes a bod y Cabinet yn ymwybodol ohonynt. Roeddent yn gwerthfawrogi'r diolchiadau ac yn dweud y byddent eu pasio ymlaen i'w tîm.

- Holodd yr Aelodau a yw'r drafodaeth ar adnoddau yn broblem sylfaenol i'r tîm a sut mae'r un broblem yn effeithio ar hyfforddiant staff, roeddent yn cydnabod bod y staff iau wedi cael eu crybwyll yn gynharach o ran helpu.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaeth drwy ddweud bod aelodau ifanc eu staff yn help oherwydd bod cael gweithlu ifanc yn rhan o natur gofal cymdeithasol. Felly, mae'r trosiant yn rhesymol gyda chyfraddau isel o staff asiantaeth, gan nodi bod gan yr ardal un gweithiwr asiantaeth. Esboniodd y swyddog arweiniol eu bod hwy a'r Pennaeth Diogelu yn falch o noddi myfyriwr a llwyddodd i gael gradd dosbarth cyntaf ac a fydd yn aros gyda'r tîm. Tynnwyd sylw at y ffaith eu bod yn gallu cefnogi myfyriwyr drwy hyfforddiant gwaith cymdeithasol ai bod hynny yr un mor bwysig eu helpu i aros. Mae gan y gwasanaeth swyddi gwag, nid cymaint ag awdurdodau eraill, ond roeddent yn dadlau eu bod mewn sefyllfa dda o'i gymharu ag awdurdod mwy a bod ganddynt staff parhaol sy'n fwy buddiol am lawer o resymau.

Esboniwyd bod yn rhaid i weithwyr cymdeithasol gyflawni hyfforddiant parhaus er mwyn cynnal eu cofrestriad. Mae llawer o hyn yn cael ei wneud ar-lein ond mae rhai nad oes modd eu cyflawni'n rhithwir fel gyda staff preswyl ac elfennau o hyfforddiant cymorth cyntaf.

Dyweddodd Pennaeth y Gwasanaeth bod y tîm wedi cynnal digwyddiad cadarnhaol ar ddechrau mis Mehefin sef cynhadledd plant a blynyddoedd cynnar gyda 150 yn bresennol. Roedd yn galonogol gweld unigolion yn croesawu ddatblygiadau newydd a soniodd fod gwaith gyda'r tîm amddiffyn plant a'r staff o blaid y newid ac yn parhau i ddatblygu ac addasu.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y staff yn pryderu am y diffyg adnoddau ac o ystyried pwysau'r atgyfeiriadau, mae hynny wedi effeithio ar hyfforddiant ond rhoddodd y swyddog arweiniol sicrwydd eu bod yn ceisio mynd i'r afael â hynny yn y flwyddyn i ddod, o ran y llwyth gwaith a sut i'w gydbwysu.

Elfen arall o'r mater hwn yw ceisio sicrhau bod adnoddau yn y lle iawn, mae trafodaeth hir ar waith ynghylch pwy arall y gallai'r tîm ei ddefnyddio i gynnal asesiadau a defnyddio adnoddau'n briodol. Mae'r broblem genedlaethol arall yn ymwneud â gwaith cymdeithasol. Mae'r swydd hon wedi wynebu heriau ledled y Deyrnas Unedig wrth iddynt barhau i orfod gweithio'n galed i gadw eu staff.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at dudalen 15 yr adroddiad a soniodd am y cynnydd mewn atgyfeiriadau sy'n ymddangos yn gyson drwy gydol blwyddyn 2021, nid yw'n edrych fel y byddai unrhyw debygolrwydd y byddai'n lleddfu. Roedd yr Aelodau'n cydnabod, yn ystod cyfnod cau ysgolion, fod atgyfeiriadau wedi'u hatal gan fynegi eu pryderon bod achosion o esgeulustod yn dod i'r amlwg hwyrach nag fel arfer. O'r cynnydd hwn mewn anawsterau, holodd y pwyllgor pa agwedd ar y pandemig sy'n achosi hyn.

Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Diogelu ei bod yn ymddangos ei fod yn deillio o gyfuniad o faterion ariannol / straen / cymorth cymunedol / colli swyddi. Nid yw'r un lefel o wiliadwriaeth wedi bod ar waith yn y gymuned h.y. ymwelwyr iechyd, brechiadau i blant ifanc; a daeth teuluoedd yn llai gweladwy gyda'r achosion difrifol o esgeulustod nad oedd y cyngor yn gwybod amdanynt flwyddyn yn ôl. Mae'n anos delio â phroblemau nas cofnodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan fod yr achosion wedi ymwreiddio'n fwy pan fyddant yn dod i'r amlwg yn ddiweddarach.

Soniodd y swyddog ein bod i gyd wedi wynebu colled mewn ffordd, oherwydd salwch neu golli cyfleoedd a mae'r tîm yn cydnabod mai'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas sydd wedi wynebu hyn fwyaf. Mae'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith i gadw pobl yn ddiogel wedi cael effaith drom ar deuluoedd a'r cymorth sydd ar gael ar eu cyfer.

Ym mis Ebrill 2020, esboniodd y swyddog fod gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau ond maent wedi cynyddu ers hynny. Mae'r tîm fel arfer yn ofni'r wythnosau ar ôl gwyliau'r ysgol neu ychydig cyn i'r disgyblion fynd ar wyliau am yr haf.

Dyweddwyd wrth yr Aelodau fod dwy broblem y mae'r tîm diogelu yn ymdrin â hwy, y golled a'r lles emosiynol a'r effaith y mae wedi'i chael ar y gwasanaethau i oedolion a hefyd lles emosiynol a salwch plant. Mae'r straen ar blant yn yr ardal hon yn amlwg a'r effaith y mae wedi'i chael ar oedolion, er enghraifft maent wedi gweld mwy o achosion o gelcian ac Anhwyllder Gorfodaeth Obsesiynol.

Nododd y Swyddog Arweiniol bod nifer yr adroddiadau am gam-drin domestig wedi cynyddu'n sydyn. Gwaethygodd yr holl bethau hyn, a bu cynnydd yn nifer y plant mewn teuluoedd fel dioddefwyr cam-drin domestig.

Ychwanegwyd bod cynnydd wedi bod mewn cam-drin brodyr a chwiorydd hefyd oherwydd y straen ar blant hŷn o orfod bod o dan glo a hefyd mewn cysylltiad ag oedolion cymharol ifanc yn byw gyda rhieni, bu cynnydd mewn cam-drin domestig gan blant hŷn ar eu rhieni.

Nododd Pennaeth y Gwasanaeth y gallwn weld ledled y wlad, mewn adroddiadau o'r wasg fod y gwannaf wedi dioddef fwyaf o hyn a bod y rhai sydd â'r adnoddau lleiaf yn cael eu taro gyntaf ac yn galetaf.

Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am yr adroddiad a'u cyflwyniadau a chytunodd i dderbyn yr adroddiad.

4 **Adroddiad Risg Gwybodaeth Blynyddol**

Gwahoddedigion:

Rhys Cornwall - Pennaeth Pobl a Newid Busnes
Mark Bleazard - Rheolwr Gwasanaethau Digidol
Tariq Slaoui – Rheolwr Gwybodaeth

Rhoddodd y Pennaeth Newid Busnes a Phobl drosolwg byr o'r adroddiad i'r pwyllgor a dywedodd mai dyma'r nawfed Adroddiad Gwybodaeth Risg blynyddol, nad yw'n adroddiad statudol ond sy'n cael ei wneud bob blwyddyn fel dull arfer gorau o reoli gwybodaeth a diogelwch, sy'n hanfodol ar gyfer tryloywder. Rhoddodd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r trefniadau ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd llywodraethu gwybodaeth.

Cydnabu'r Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod cyd-destun yr adroddiad dan sylw yn seiliedig ar gyfnod nas gwelwyd ei debyg erioed o'r blaen pan fo rheoli risg yn deillio'n bennaf o weithio gartref sy'n cyflwyno heriau gwahanol. Er enghraifft, gallai pylu'r ffiniau rhwng gwaith a bywydau personol gynyddu'r risg y bydd staff yn cael eu targedu gan seiber-droseddwy oherwydd yr amgylchiadau unigryw sy'n effeithio ar bobl.

Aeth y swyddog drwy uchafbwyntiau penodol yr adroddiad a'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ymdrin ag ef o ran rhai elfennau o gydymffurfio. Mae'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu galluogi i gysylltu'r rhwydwaith i reoli eu gwybodaeth a'u diogelwch yn briodol, a reolir gan swyddfa'r cabinet. Nodwyd eu bod wedi gwneud dau gyflwyniad sydd wedi bod yn aflwyddiannus a oedd yn her ac wedi'i uwchgyfeirio gan GRhR.

Mae Rheoliad Diogelu Data GDPR yn rhoi cyfarwyddyd i'r cyngor ar sut i drin y data. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cyngor yn gyfforddus eu bod yn rheoli'r wybodaeth hon fel y dylai sefydliad, soniwyd bod hysbysiadau preifatrwydd clir ar y wefan yn nodi sut mae'r cyngor yn cadw ei ddata er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw.

Elfen arall o gydymffurfiaeth oedd y cyfleuster cardiau talu, mae'r cyngor yn cydymffurfio ond roedd ganddynt rai heriau ychydig flynyddoedd yn ôl. Er mwyn datrys hyn, mae'r tîm yn gweithio drwy ymarfer caffael i weithio gydag arbenigwyr ac yn hyderus eu bod yn gwneud pethau'n dda o ran cynnydd ond y byddant yn gwneud pethau ychydig yn wahanol dros y misoedd nesaf. Mae hon yn broses barhaus sydd wedi'i gohirio oherwydd profedigaeth ond sicrhawyd yr aelodau bod y tîm yn ôl ac yn gweithio ar y prosiect.

O ran y safonau data, sicrhaodd y swyddog y pwyllgor fod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith gyda'r staff, er enghraifft, Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, Pennaeth Pobl a Newid Busnes yw pennaeth gweithredol y tîm, grŵp

Ilywodraethu gwybodaeth y maent yn cyfarfod ag ef, a'r Rheolwr Gwasanaethau Digidol yw'r Swyddog Data Diogelu.

Esboniodd y swyddog eu bod, ar gyfer 2021, wedi cynnal arolwg staff ar GDPR a bod y canlyniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a ddarperir yn nodi bod mwy o waith eto i'w wneud ynghyd â'r camau sy'n deillio o hynny.

Hysbyswyd y pwyllgor am y newyddion cadarnhaol fod gan y tîm digidol gytundeb lefel gwasanaeth dwy flynedd gydag ysgolion cynradd lleol a oedd yn fuddiol iawn iddynt ac yn gam mawr gan ei fod yn annog llawer o ymholiadau ganddynt o ran cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth.

Esboniwyd i'r aelodau ei bod wedi dod i'r amlwg mai'r staff oedd y cyswllt gwannaf o ran risgiau diogelwch, felly mae'r cyngor yn atebol am sicrhau bod eu staff yn wybodus ac yn cael eu haddysgu gymaint ag y gallant. Soniwyd eu bod yn cynnal sesiynau rheolaidd, yn bennaf ar Teams, o ran sesiynau wyneb yn wyneb, bydd y rhain yn cael eu trefnu yn y Ganolfan Ddinesig. Bydd y tîm yn cynnal cyrsiau go iawn eto, dywedodd y swyddog fod y cwrs e-ddysgu ar GDPR wedi bod yn rhagorol gan fod nifer fawr o staff wedi gloywi eu gwybodaeth.

Cydnabu'r swyddog, gyda'r arolwg staff, fod angen iddynt wneud mwy o waith dadansoddi ar yr hyn sy'n bwysig a bydd cyfathrebu'n rhan fawr o hynny. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r broblem nesaf o ran rheoli risg fyddai sefyllfaoedd pan fo gwaith papur pwysig yn mynd ar goll, negeseuon e-bost cyfrinachol yn cael eu hanfon at y person anghywir. Hysbyswyd y pwyllgor bod gan y tîm gynllun gweithredu ar waith i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol eu bod yn rhannu cyfrifoldeb gyda rheolwyr data fel rhan o'r Gwasanaeth Tracio ac Orlhain, adnodd dynodedig ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Hysbyswyd y pwyllgor mai ychydig iawn o ddata sydd ar gael ond oherwydd y broblem y rhoddwyd gwybod amdani i swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth ac y rhoddwyd cyhoedduswydd iddi, roedd tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithredu'n dryloyw drwy gyhoeddi datganiad i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o risgiau.

O ran atebion technoleg, hysbyswyd y pwyllgor eu bod mewn sefyllfa eithaf da gyda phobl yn gweithio o bell ond eu bod yn newid eu hatebion gyda systemau e-bost diogel fel egress er enghraifft. Esboniwyd, pan ysgrifennwyd yr adroddiad, eu bod wrthi'n symud i ddefnyddio ateb gwahanol sydd bellach wedi'i ddatrys.

Cynigiodd y Bartneriaeth TG gyda'r Gwasanaethau Adnoddau a Rennir ddefnyddio canolfan gweithrediadau diogelwch a system rheoli gwybodaeth diogelwch. Byddai systemau o'r fath yn cofnodi gweithgarwch a phryderon am y rhwydwaith gydag unigolion i'w cynorthwyo. Dywedwyd wrth yr Aelodau eu bod bellach mewn sefyllfa i gytuno ar gyllideb ar gyfer y cynllun hwn i wella trefniadau diogelwch presennol y Cyngor a fydd yn newid y sefyllfa o ran gweithio o bell ac yn sicrhau manteision diogelwch ar gyfer VPN. Soniwyd am feddalwedd wystlo fel bygythiad enfawr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ond mae'r tîm yn ymwybodol iawn o hyn ac maent yn gweithio ar yr ateb i liniaru'r risg o weithio o bell a seiber-risg.

Yna hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor fod y tîm wedi cael ymateb gwych i gyflwyno gwybodaeth mewn cysylltiad â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, gan eu bod wedi yn rhagori ar eu targed eleni.

Aeth y Rheolwr Gwasanaethau Digidol ymlaen i dynnu sylw at y ffaith bod staff wedi cael problemau gyda cheisiadau gwrthrych am wybodaeth a oedd yn ymholiadau'n ymwneud â data personol, gan nodi eu bod wedi methu bwrw'r targed hwnnw. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y broblem o ran cael mynediad corfforol i'r cofnodion oherwydd bod gweithwyr yn gweithio o bell. Sicrhawyd y pwyllgor y bydd hyn yn gwella wrth symud ymlaen i hanner nesaf y flwyddyn.

Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Mynegodd Aelod bryder ynghylch sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn haws i bawb ar y wefan o ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. O ran ceisiadau gwrthrych am wybodaeth, holodd yr aelod ymhellach y prif reswm pam fod aelodau'r cyhoedd yn gofyn amdanynt. Soniodd yr Aelod bellach am y broblem gyda'r wefan yn methu a gofynnodd a allai hynny ddigwydd eto.

Eglurodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes bod llawer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn dod i law gan gwmnïau wrth iddynt chwilio am gyfleoedd masnachol ac mae'r cyngor yn ceisio eu rhoi ar y wefan mewn man dynodedig yn yr adran Cwestiynau Cyffredin i atal staff rhag gorfod mynd drwy'r un broses guradu hir pan fo gwaith eisoes wedi'i wneud i'w hateb.

O ran y wefan, atebodd Pennaeth y Gwasanaeth fod y strwythur TG yn sefydlog iawn yn gyffredinol, sef 99.4% o'r amser, ond bod y methiannau yn digwydd am amryw o resymau, sydd yn bennaf ty tu hwnt i reolaeth y cyngor. Ni allai'r swyddog roi gwarant na fyddai'n digwydd eto ond rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y bydd mesurau gyda'r cynllun adnewyddu cyfalaf gyda'r Gwasanaethau Adnoddau a Rennir ar y seilwaith yn lleddfu'r systemau. Cytunwyd gyda'r Cabinet ym mis Hydref i symud y dyddiad ar gyfer paratoi ar gyfer gwydnwch gyda golwg ar liniaru sefyllfaoedd o'r fath.

O ran y ceisiadau gwrthrych am fynediad, ymatebodd y Rheolwr Gwybodaeth drwy nodi eu bod yn geisiadau sy'n destun deddf diogelu data deddfwriaeth benodol, oherwydd o 2018 ymlaen mae'n ofyniad statudol i ymateb i geisiadau o'r fath cyn pen un mis. Mae hyn yn wir am y sector preifat hefyd, nid dim ond y sector cyhoeddus. O ran y rheswm pam, nodwyd bod llawer o resymau ond y rhesymau mwyaf cyffredin y soniwyd amdanynt oedd pan fo cofnodion gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys gwybodaeth y maent ei hangen mewn cysylltiad â phlentyn, fel cofnodion addysg, a hanes taliadau'r dreth gyngor. Mae'r adran yn derbyn amryw geisiadau ad-hoc yn ogystal â'r rhain. Yna, mae gwasanaethau gwybodaeth yn trosglwyddo'r cais hwn i'r gwasanaeth perthnasol i goladu gwybodaeth ac ymateb yn unol â hynny o fewn y gyfraith.

- Holodd Aelod os yn bosibl am fwy o dryloywder ynghylch ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan ail-ddweud pan fethodd y wefan bod hynny wedi achosi problemau ar draws y cyngor.

Ymatebodd y Rheolwr Gwybodaeth drwy gyfeirio at y dudalen Tryloywder sydd ar wefan y cyngor gan ei fod yn cynnwys y cwestiynau cyffredin mewn cysylltiad â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Er enghraifft, nifer y disgyblion ar gofrestr ysgol, achosion blaenorol a chyfraddau busnes ond oherwydd achos llys nid ydynt yn gwneud hynny'n awr. Esboniodd y swyddog na allant roi pob cais unigol ar-lein ond mae'n rhywbeth y maent yn ei adolygu gan fod angen iddynt ystyried y canlyniadau a allai ddeillio ohono a'r adnoddau y byddai angen eu defnyddio yn realistig. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y tîm yn diweddarau'r rhain bob chwarter yn dibynnu ar ba ddata a geir arno.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol yr aelod at dudalen tryloywder newport.gov gan ategu sylwadau'r Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod y broblem gyda'r wefan yn methu yn anarferol ac eu bod yn cydnabod ei fod yn cael effaith fawr. Roedd y strwythur data yn hen a allai fod wedi achosi problemau ond esboniodd fod offer newydd wedi'i brynu a bod y tîm yn cyflawni gwaith adnewyddu sy'n helpu i leihau problemau.

Aeth y swyddog ymlaen i egluro mai'r gwydnwch cyffredinol fyddai symud i ddefnyddio'r cwmwl, ond ni allai'r swyddogion warantu na fydd system yn methu, ond wedi dweud hynny, mae darparwyr o'r fath mewn sefyllfa dda i ddarparu atebion.

- Soniodd Aelod bod dirwyon mawr i'w cael os bydd sefydliad yn datgelu gwybodaeth drwy dorri rheolau data, a gofynnodd a fyddai'r cyngor yn cael dirwy o £20 miliwn pe bai'r un peth yn digwydd iddynt.

Ymatebodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes i gadarnhau'r ffigur ond gan egluro i'r pwyllgor mai'r ffigur y soniwyd amdano oedd y ddirwy uchaf erioed i'w rhoi, a oedd yn erbyn British Airways mewn achos nodedig o ddatgelu data. Roedd hyn yn fwy nag £20 miliwn gydag ewros yn seiliedig ar drosiant. Roedd y ddirwy wreiddiol y cynigiwyd ei rhoi mewn gwirionedd yn sylweddol uwch na hynny ond fe'i gostyngwyd i 20 miliwn oherwydd effaith y pandemig ar y sector a nododd fod y ddirwy hon yn tynnu sylw at y risg sy'n gysylltiedig ag achosion o'r math hwn.

- Mynegodd Aelod bryder y byddai'n rhaid i'r sefydliad dalu'r pris hwnnw drwy gynyddu eu costau a'u pasio ymlaen i'w cwsmeriaid sy'n talu. Holodd yr aelod a allai'r un peth ddigwydd gyda'r cyngor, a phe bai'n gwneud hynny, a fyddent codi cyfraddau uwch ar y cyhoedd pe baent byth yn cael dirwy am ddatgelu data?

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod y cyngor yn Gorff Awdurdod Lleol nad yw'n gwneud elw ac yn realistig, ni fyddai cynghorau'n wynebu dirwyd ar y raddfa honno. Mae'r cyngor yn gweithio ar gamau atal ac nid yw'n trin data'n wylidwrus rhag ofn iddo gael cosb ariannol, mae'n gwneud hynny oherwydd ei fod yn trin data sensitif iawn sy'n ymwneud â'i drigolion lleol.

Pwysleisiodd y swyddog mae pwrpas y cyngor yw cynnig gwasanaeth i'w drigolion a mater i'r Cyngor fyddai trafod a fyddai'n talu dirwy'n ymweud ag achosion o fynediad diawdurdod at ddata drwy ei drethdalwyr.

I'r gwrthwyneb, pe bai'r cyngor yn euog o'r fath drosedd, ni fyddai'n wynebu dirwy sy'n ddigon mawr i wneud i'r cyngor wneud unrhyw beth eithafol ac mae trefniadau ar waith i sicrhau nad ydynt mewn sefyllfa o'r fath.

- Nododd aelod mai gwall dynol sy'n bennaf gyfrifol am hyn, sef y staff. Roeddent yn cwestiynu a fyddai aelod o staff anfodlon yn rhyddhau gwybodaeth, fel pe bai drwy ddamwain?

Cydnabu'r Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod staff ac aelodau fel ei gilydd yn gwneud camgymeriadau ac mai dyma fyddai'r mater anoddaf i brosesau a gweithdrefnau ei ddatrys. Dywedwyd wrth y pwyllgor fod gan y cyngor fesurau ar waith i sicrhau na fyddai mynediad diawdurdod at ddata yn digwydd.

Nododd y swyddog mai £300,000 yw'r ddirwy uchaf y bu'n rhaid i gorfforaeth ei dalu ac na ddylai'r ddirwy fod yn ffactor sy'n sbarduno gwyliadwriaeth.

- Cyfeiriodd y pwyllgor at yr adroddiad gan amlinellu'r ffaith nad yw'r cyngor yn gwybod faint o ddata sensitif y maent yn ei gadw. Holodd yr aelodau a oedd dull ar waith i hidlo drwy'r hyn a gedwir ac na gedwir gan y cyngor?

Dyweddod y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod gan y tîm syniad da o ba wybodaeth sydd ganddynt, mae ganddynt fwy o ehangder o ran gwasanaethau gan fod ganddynt system data asedau.

Mae gan y cyngor fanylion am ba ddata sy'n cael ei gadw o fewn y cyngor boed hwnnw'n ddata iechyd neu'n ddata personol sensitif. Pwysleisiodd y swyddog eu bod yn ystyried ehangu hynny ymhellach nid yn unig gyda'r systemau sylfaenol ond rhai o'r systemau data llai a fyddai'n lliniaru risg o achosion o fynediad diawdurdod at ddata posibl.

- Nododd Aelod y cyfrif stoc y soniwyd amdano yn yr adroddiad. Gofynnodd y pwyllgor sut mae'r cyngor yn cyfrif stoc a gofynnodd i'r swyddogion gadarnhau beth fyddai sgôr dda yn ei olygu.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol fod cyfrif stoc seiber yn cael ei wneud ledled Cymru a'r awdurdodau lleol a'i fod ar ffurf hunanasesiad. Rhoddir sgôr i'r Cyngor ar y meysydd penodol hynny.

Tynnodd y tîm sylw at bryderon blaenorol am feddalwedd wystlo ac o ganlyniad i'r cyfrif stoc, rhoddwyd hwb i wydnwch y Cyngor rhag meddalwedd wystlo.

Roedd y swyddog yn cydnabod bod angen mwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth ar staff i'w gwneud yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau megis drwy gyrsiau ar-lein gan fod mwy y gallant ei wneud bob amser i liniaru risgiau o'r fath.

- Gofynnodd y pwyllgor, pan fydd y cyngor yn cynnal yr hunanasesiad os cawn ein sgorio gan drydydd parti.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol hyn a bod hyn yn cael ei wneud i Gymru'n ganolog. Mae'r tîm yn rhoi ymatebion ac maent yn dadansoddi ac yn cymharu gwahanol sefydliadau ac yn gallu cyngori gwahanol adrannau ar drefniadau llywodraethu. Gyda seiberddiogelwch, mae llawer y mae sefydliadau'n ei wneud ond pan fydd y risgiau hynny'n cynyddu, mae angen i sefydliadau wneud mwy, felly mae'n well eu hasesu'n ganolog a chlywed yr hyn y maent yn ei ystyried yn arfer gorau o ran y meysydd hynny.

- Gofynnodd Aelod o'r pwyllgor i'r swyddog beth oedd sgôr y cyngor mewn perthynas â'r hunanasesiad.

Ni allai'r Rheolwr Gwasanaethau Digidol gofio'r union sgôr ond roedd yn hyderus ei fod yn uwch na'r cyfartaledd ar draws yr awdurdodau.

- Yna cyfeiriodd y pwyllgor at dudalen 67 ar gyfer y tabl gan gynnwys nifer y digwyddiadau. Holodd yr Aelodau a oedd hynny'n rhan o'r broses.

Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Digidol drwy ddweud nad oedd, gan eu bod yn gwneud hunanasesiad ar feysydd penodol drwy ofyn am eu gweithdrefnau. Nid am y gweithgaredd na faint o ddigwyddiadau / achosion o fynediad diawdurdod at ddata a adroddwyd.

- Soniodd y Pwyllgor am natur unigryw gweithio ystwyth gan holi a fyddai'r staff sy'n gweithio o bell ac sy'n dibynnu ar eu Wi-Fi eu hunain dros y 12 – 15 mis diwethaf, yn achosi unrhyw bryder o ran seiberfwlio?

